# Tlodi Plant - Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau

cwestiynau cyffredin @ 03/07/24

Bydd y rhestr hon yn cael ei diweddaru wrth i gwestiynau godi, ac nid yw'r rhestr mewn unrhyw drefn benodol o ran blaenoriaeth neu bwysigrwydd.

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| Pwy sy'n cael gwneud cais? | Sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector – e.e. Awdurdodau Lleol, Byrddau'r Sector Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, elusennau a sefydliadau ffydd |
| Lleoliad y prosiect/gweithgareddau a dderbynnir | Bydd angen cynnal y prosiect / gweithgareddau y gwneir cais amdanynt yng Nghymru. Nid yw gweithgareddau y tu allan i Gymru yn cael ei gefnogi o dan y cynllun grant hwn. |
| A all ymgeiswyr wneud cais am bob un o'r tri o botiau arian os ydym yn bodloni'r meini prawf? | Nid oes unrhyw beth yn ein canllawiau/meini prawf a fydd yn eich atal rhag gwneud cais am bob un o'r tri o botiau arian os ydych yn bodloni'r meini prawf. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddwn yn ystyried meini prawf megis gwasgariad prosiectau'r grant dros ardaloedd daearyddol. |
| Beth yw'r diffiniadau o'r canlynol:<br><br>**Cymuned** - a yw'r term yn canolbwyntio ar anghenion un gymuned yn unig o fewn sir?<br><br>**Lleol** - a yw 'lleol' yn golygu o fewn un sir? (mwy nag un gymuned?)<br><br>**Rhanbarthol** - a yw 'rhanbarthol'' yn cyfeirio at ardal ddaearyddol benodol - neu ledled Cymru? | Rydym wedi darparu rhywfaint o hyblygrwydd i ddatblygu/annog cydweithio ac arloesi heb gyfyngiadau ffiniau sydd wedi'u pennu'n ffurfiol. Ond, fel canllaw, byddem yn awgrymu'r canlynol.<br><br>**Cymuned**: ardal sy'n cynnwys mannau sydd wedi'u lleoli'n agos, e.e. tref, pentref neu gymdogaeth.<br><br>**Lleol**: ardal sy'n cynnwys nifer o gymunedau agos at ei gilydd yn ddaearyddol, e.e. ardal awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), neu ardal benodol a all ffinio mwy nag un awdurdod lleol.<br><br>**Rhanbarthol**: ardal sy'n cynnwys mwy nag un awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) mewn un rhanbarth daearyddol yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| | a/neu o fewn ardal partneriaeth ranbarthol sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, (ond heb fod yn gyfyngedig i) ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgor Corfforaethol, Bwrdd Iechyd neu ardal Partneriaeth Ranbarthol.<br><br>Mae'r ffocws ar sut, ar ba bynnag raddfa sy'n berthnasol i'r cais, y gall y cyllid gefnogi cydweithio rhwng sefydliadau i atal neu liniaru effeithiau gwaethaf tlodi plant. |
| Beth fydd ei angen ar Lywodraeth Cymru gan yr ymgeiswyr os bydd eu cais yn llwyddiannus? | Bydd y cyllid grant yn cael ei roi i'r sefydliadau llwyddiannus yn amodol ar y telerau ac amodau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn dilyn gwirio diwydrwydd dyladwy.<br><br>Mae angen i ymgeiswyr allu darparu –<br><br>- manylion eu statws sefydliadol<br>- manylion eu cyfrif banc i allu derbyn cyllid Llywodraeth Cymru |
| Beth mae 'darparu gwasanaethau' yn ei olygu? A yw'n cyfeirio at ddarparu gwasanaeth statudol, neu a fyddai'n berthnasol i'n rhaglenni hefyd? | Mae angen i'r prosiect fod yn rhaglen waith sydd ar wahân i'ch rhaglenni gwaith arferol, a bodloni gofynion y meini prawf. Fel y nodir yn y Canllawiau, mae'r cyllid ar gael i wella a chryfhau trefniadau cydweithio sydd eisoes ar waith, gan ychwanegu gwerth atynt, neu i sefydlu trefniadau cydweithio newydd. Gall hyn gynnwys costau staff fel y gellir rhyddhau capasiti i hwyluso trefniadau cydweithio. |
| Beth yw'r ystod oedran ar gyfer cyflawni amcanion y rhaglen mewn perthynas â phobl ifanc? A oes terfyn oedran penodol, er enghraifft hyd at 18 neu 18+ | Nid oes terfyn oedran. |
| A fydd angen i fuddiolwyr gael prawf modd i asesu a ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwystra o ran tlodi? | Na, ni fydd angen i fuddiolwyr gael prawf modd i asesu a ydynt yn gymwys. |
| A yw'n ofynnol i ni gyflwyno prosiectau/gweithgareddau newydd i wahaniaethu rhwng ein rhaglen a'n rhaglenni gwaith arferol, a chael effaith | Ydy.  Mae angen i'ch prosiect newydd fod yn rhaglen waith ar wahân i'ch rhaglen waith arferol, a bodloni'r meini prawf ar gyfer y grant. Gweler hefyd yr |

| | |
|---|---|
| arwyddocaol ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru? | adran 'Cydlyniant â mentrau eraill' yn y Canllawiau. |
| A fyddai'n bosibl i chi roi unrhyw enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ariannu o dan y grant? | Fel yr amlinellir yn y Canllawiau, byddai'r cynigion yn galluogi arloesi a chydweithio rhwng sectorau a/neu bartneriaethau rhanbarthol i fynd i'r afael â thlodi plant.<br><br>Mae'r grant ar gael i gefnogi sefydliadau a grwpiau ffydd y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn eu hymdrechion i gyflawni'r canlynol:<br><br>• Gwella gallu sefydliadau i ffurfio trefniadau cydweithio i fynd i'r afael â thlodi plant, sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o 5 amcan Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024.<br>• Cefnogi sefydliadau i gyfathrebu'n effeithiol, cydweithio a throsglwyddo gwybodaeth wrth ymateb i dlodi plant ar lefel ranbarthol, lleol neu gymunedol.<br>• Mae tudalen 4 y Canllawiau yn cynghori - bydd angen i brosiectau nodi'n glir sut y bydd cryfhau cydweithredu trwy'r peilot yn arwain at brofiadau a chanlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi yn y dyfodol.<br><br>Paratowyd y canllawiau i helpu ymgeiswyr i asesu eu cais am grant yn erbyn y gofynion.<br><br>Ni allwn gynnig enghreifftiau penodol o geisiadau a fyddai'n cael eu cymeradwyo. |
| A all sefydliad gyflwyno mwy nag un cais am brosiectau gwahanol? | Nid ydym yn cyfyngu ar nifer y ceisiadau fesul sefydliad; fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddwn yn ystyried meini prawf megis gwasgariad daearyddol prosiectau'r grant yn gyffredinol. |
| A fyddai'n bosibl i mi drafod ein syniadau ar gyfer prosiect â chi?/ Oes modd trefnu sgwrs i weld a yw'n | I sicrhau cystadleuaeth deg, mae arnaf ofn na allwn gwrdd â chi yn ystod y cam hwn o'r broses i drafod eich cais. Fodd |

| | |
|---|---|
| syniadau yn rhai sydd yn ffitio briff y grant cyn i ni fynd ati i gwblhau'r ffurflen gais os gwelwch yn dda? | bynnag, os oes gennych unrhyw bwyntiau penodol yr hoffech gael eglurder pellach amdanynt, gallwch anfon y manylion atom trwy e-bost. |
| Mae X yn ddarparwr allanol i Ysgol yn X, un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn X.<br><br>A all yr ysgol ac X wneud cais am y cyllid hwn i weithio gyda'u dysgwyr sydd wedi'u heffeithio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod – byddai X yn cydweithio â'r Ysgol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u heffeithio gan brofiadau niweidiol neu drawma yn ystod plentyndod.<br><br>Ai dyma'r cyllid iawn i wneud cais amdano ar y cyd â'r Ysgol? | Mae'r grant hwn ar gael ar draws y sector i gefnogi'r gwaith o weithredu amcanion y Strategaeth Tlodi Plant.<br><br>Byddwch wedi gweld o gyfeirio at y Canllawiau mai diben craidd y rhaglen grant hon yw nodi'r hyn a ddysgir wrth gyflwyno dulliau o ddatblygu neu gydgrynhoi trefniadau cydweithio gwell.<br><br>Mae'r cyllid grant hwn ar gael i wella a chryfhau trefniadau cydweithio sydd eisoes ar waith, gan ychwanegu gwerth atynt, neu i sefydlu trefniadau cydweithio newydd. Gall hyn gynnwys costau staff fel y gellir rhyddhau capasiti i hwyluso trefniadau cydweithio. Bydd disgwyl i geisiadau fodloni'r meini prawf cymhwystra, fel yr amlinellir yn y Canllawiau. |
| A allwch chi gadarnhau a fyddech yn ystyried y costau cymwys canlynol ar gyfer y grant hwn ai peidio:<br><br>[Darparwyd enghreifftiau o gostau unigol.]<br><br>Rwy'n deall y byddai costau craidd a gweithredol yn ymwneud â chostau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol ar gyfer y prosiect. | Byddwch wedi gweld o gyfeirio at y Canllawiau mai diben craidd y rhaglen grant hon yw nodi'r hyn a ddysgir wrth gyflwyno dulliau o ddatblygu neu gydgrynhoi trefniadau cydweithio gwell.<br><br>Mae'r cyllid grant hwn ar gael i wella a chryfhau trefniadau cydweithio sydd eisoes ar waith, gan ychwanegu gwerth atynt, neu i sefydlu trefniadau cydweithio newydd. Fel y nodir ar dudalen 2 y Canllawiau, mae'r cyllid grant ar gael i wella a chryfhau trefniadau cydweithio sydd eisoes ar waith, gan ychwanegu gwerth atynt, neu i sefydlu trefniadau cydweithio newydd. Gall hyn gynnwys costau staff fel y gellir rhyddhau capasiti i hwyluso trefniadau cydweithio.<br><br>Mae angen i unrhyw gostau staff ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau sy'n gwella trefniadau cydweithio i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi. |

| | |
|---|---|
| | Bydd disgwyl i geisiadau fodloni'r meini prawf cymhwystra, fel yr amlinellir yn y Canllawiau. |
| Rwy'n ystyried cais am gyllid grant sy'n canolbwyntio ar ddatblygu platfform digidol ar gyfer gwybodaeth a chyfeirio pobl at wybodaeth ddefnyddiol ar draws rhanbarth penodol.<br><br>A allwch chi gadarnhau a fyddai'r cynnig hwn yn anghymwys pe bai'n cynnwys taliad i gwmni yn y sector preifat i ddylunio a datblygu'r platfform? | Mae'r canllawiau'n nodi *Croesewir gweithgareddau cydweithredol sy'n cynnwys y sector preifat ond nid yw'r cyllid ar gael i ariannu unrhyw gostau uniongyrchol i bartner yn y sector preifat*.<br><br>O'r wybodaeth gyfyngedig a ddarperir, mae'n ymddangos y byddai'r cais yr ydych yn ei ystyried yn cynnwys comisiynu prosiect ar gyfer *datblygu platfform digidol ar gyfer gwybodaeth a chyfeirio pobl at wybodaeth ddefnyddiol ar draws rhanbarth penodol*. Ni fyddai'r costau uniongyrchol i bartner yn y sector preifat yn berthnasol i ymarfer caffael sy'n bodloni rheolau eich sefydliad. |
| Mae'r ddogfen yn nodi na ellir hawlio costau craidd a gweithredol y partïon dan sylw.  A allwch chi gadarnhau a yw hyn yn golygu nad ydym yn gallu cyflwyno cais gan ddefnyddio model adennill costau llawn? | Rydym yn pennu y byddai *costau craidd* yn gostau cyffredinol sy'n ymwneud â swyddogaeth y Prif Swyddfa, gweithrediadau canolog, rheoli a hunaniaeth y partner cyflenwi yn hytrach nag â gwasanaethau'r rhaglen. Ni fyddem yn disgwyl i gais gynnwys costau llawn i sefydliad sy'n cynnwys swyddogaethau o'r fath.<br><br>Nodwn fod eich sefydliad yn rhannu'r holl gyfryw gostau craidd â nifer y staff o fewn y sefydliad i gyfrifo'r cyfraniadau at brosiect penodol o dan y model adennill costau llawn.  Rydych chi'n datgan y byddai'r prosiect rydych chi'n ei ddisgrifio yn cynnwys cyfran *un person* o gostau'r cyfleusterau yng nghyllideb y prosiect *un person* hwn ar gyfer eich cais.  Rwy'n cadarnhau **y byddai** cais fel yr un a ddisgrifir yn dderbyniol o dan y Canllawiau.<br><br>Mae'n allweddol bod unrhyw gostau o'r fath yn gymesur ac yn rhesymol, ac y gellir eu priodoli i lefel y staffio ar gyfer y prosiect.  Mae'r ffurflen gais yn Atodiad A yn eich galluogi i fod yn glir ynghylch |

| | |
|---|---|
| | yr holl gostau rydych yn eu cynnwys yn y cais. |
| Pam nad yw cyllid i ddarparu gwasanaethau yn gymwys?<br><br>Pam nad yw cyllid i ddarparu gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli yn gymwys? | Pwrpas y grant yw galluogi arloesi drwy gydweithio.<br>Fel y nodir yn y canllawiau, mae cyllid ar gael i wella a chryfhau trefniadau cydweithio sydd eisoes ar waith, gan ychwanegu gwerth atynt, neu i sefydlu trefniadau cydweithio newydd. |
| Mae'r Canllawiau'n nodi 'nid yw'r cyllid ar gael i ariannu unrhyw gostau uniongyrchol i bartner yn y sector preifat'.<br><br>A yw hyn yn berthnasol o hyd os yw'r partner yn gwmni preifat ac yn elusen gofrestredig? | O'r wybodaeth sydd gennym byddem yn ystyried y byddai'r sefydliad yn gymwys. Ond rhowch ragor o wybodaeth am y sefydliad yn y cais, a byddwn yn cysylltu â chi os oes gennym unrhyw gwestiynau. |
| A gaf i holi a oes unrhyw grant y gwneir cais amdano, yn gallu mynd tuag at gostau ymgynghorydd ymchwil allanol, neu a oes unrhyw ddisgwyliad y dylid defnyddio swm llawn y grant ar gyfer cyflawni'r gweithgaredd yn unig? Os oes modd defnyddio rhan o'r grant ar gyfer ymgynghorydd ymchwil allanol, a oes yna ddisgwyliad mewn perthynas â'r trothwy uchaf ar gyfer yr elfen hon, h.y. llai na 10% o gyfanswm y grant? | Mae'n allweddol bod unrhyw gostau o'r fath yn gymesur ac yn rhesymol, ac y gellir eu priodoli i lefel y prosiect. Mae'r ffurflen gais yn Atodiad A yn eich galluogi i fod yn glir o'r holl gostau yr ydych yn eu cynnwys yn y cais. |